Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cyfrif Dysgu Personol

## Manyleb y Rhaglen

Mae'r fersiwn hon o'r fanyleb yn berthnasol i Flwyddyn Academaidd 2026/27.

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Cynnwys


Cyflwyniad ... 3
Pwrpas y Rhaglen ... 3
Trosolwg o'r Ddarpariaeth ... 4
Cymhwystra Dysgwyr a Gofynion Mynediad ... 5
Cynnwys y Rhaglen ... 6
Gofynion Cyflwyno Data ... 7
- Codau Rhaglen ... 7
- Gwybodaeth am Gyllido ... 8

Monitro ac Archwilio ... 8
- Dull Monitro ... 8
- Cydymffurfio â Manyleb y Rhaglen ... 8
- Deilliannau Dysgu ... 8
- Profion Archwilio ... 9

Manylion Cyswllt ... 9
Atodiadau ... 10
- A. Rhestr Wirio Cymhwystra ... 10
  - Enw Llawn ac Oedran ... 10
  - Preswyliad Cyfreithiol yng Nghymru ... 10
  - Nodweddion Cyflogaeth ... 10
- B. Cais am Gymhwyster Newydd ... 12
  - Rhan 1: Cais gan Sefydliad Addysg Bellach ... 12
  - Rhan 2: Asesiad gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ... 12
  - Rhan 3: Gwerthusiad gan Banel Medr ... 12
- C. Proses y Panel PLA – Adolygiad o Werthoedd Cyllido ... 13
- D. Casglu Data ... 14
  - Set Ddata LLWR y Dysgwr ... 14
  - Set Ddata LLWR y Rhaglen Ddysgu ... 15
  - Set Ddata LLWR Gweithgaredd Dysgu (LA) ... 21
  - Set Ddata LLWR ar gyfer Dyfarniad (AW) ... 23
  - Data eraill nad ydynt yn gysylltiedig â LLWR ... 24

## Cyflwyniad

1. Mae'r Fanyleb Rhaglen hon yn nodi'r meini prawf i Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) sy'n darparu rhaglenni Cyfrif Dysgu Personol. Mae'n rhoi trosolwg o ofynion y rhaglen, gan gynnwys cymhwystra dysgwyr ac amodau mynediad; mae'n manylu hefyd ar y gofynion o ran cyflwyno data a monitro fel bo modd i Medr fonitro darpariaeth a deilliannau dysgu ar gyfer y Rhaglen.

2. Mae'n rhaid i raglenni Cyfrif Dysgu Personol fodloni'r safonau a'r amodau a sefydlwyd yn fframwaith rheoleiddio esblygol Medr, gan gynnwys *Telerau ac Amodau Grant, Amodau Cofrestru, y Fframwaith Ansawdd,* a'r *Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.*

3. Mae rhaglen y Cyfrif Dysgu Personol yn un o saith elfen yn y ddarpariaeth Ôl-16 Ran Amser a ariennir yng Nghymru. Dyma'r elfennau hynny:
   - Addysg Sylfaenol i Oedolion (ABE) a Pharatoi am Fywyd a Gwaith (PREP)
   - Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)
   - Ailsefyll TGAU (GCSE-R)
   - Cymwysterau Galwedigaethol (OccQs)
   - Blaenoriaethau Lleol Eraill (OLP)
   - Y Cyfrif Dysgu Personol (PLA)
   - Lleoliadau Profiad Gwaith (WEP)

## Pwrpas y Rhaglen

4. Nod rhaglen y Cyfrif Dysgu Personol yw helpu unigolion i uwchsgilio neu ailsgilio mewn sectorau â blaenoriaeth, yn enwedig y rheiny sy'n ennill llai na'r ffigur canolrifol gros blynyddol ar gyfer oedolion sy'n gweithio'n llawnamser yng Nghymru[1]. Drwy ganolbwyntio ar sectorau blaenoriaeth cenedlaethol, mae'r rhaglen yn gwella potensial cyfranogwyr o ran gyrfa ac enillion.

5. Dyma'r blaenoriaethau cenedlaethol y mae'r rhaglen yn canolbwyntio arnynt:
   - Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch[2](gan gynnwys Lled-ddargludyddion Cyfansawdd)
   - Digidol[3] (gan gynnwys Technoleg Greadigol a Thechnoleg Ariannol)
   - Iechyd a Gofal Cymdeithasol[4] (gan gynnwys Gofal Plant a Gwasanaethau Brys)
   - Lletygarwch a Thwristiaeth[5] (gan gynnwys y Diwydiant Bwyd)
   - Sero Net[6] (ym meysydd Adeiladu, Ynni, Peirianneg a Gweithgynhyrchu)
   - Trafnidiaeth[7] a Logisteg (gan gynnwys Trwyddedau HGV/LGV)

6. Dylai'r Sefydliadau Addysg Bellach hefyd fod yn ymwybodol o'r ymrwymiadau yn Cymraeg 2050[8] i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r

---

[1] £34,796 oedd y ffigur hwn ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2025 (Arolwg blynyddol o oriau ac enillion: 2024).
[2] Gweler Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru. Ein Taith tuag at Gymru 4.0'
[3] Gweler Strategaeth Ddigidol i Gymru
[4] Gweler Cymru Iachach
[5] Gweler Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 i 2025
[6] Gweler Cynllun Strategol Sero Net Llywodraeth Cymru
[7] Gweler Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021
[8] Gweler Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg

Gymraeg. Mae Rhaglen y Cyfrif Dysgu Personol yn annog cynigion ar gyfer darparu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog, lle cefnogir hyn gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

## Trosolwg o'r Ddarpariaeth

7. Dyma brif nodweddion Rhaglen y Cyfrif Dysgu Personol:
   - Cymwysterau Cymeradwy: Bwriedir i'r rhain roi hwb i sgiliau mewn sectorau â blaenoriaeth, gan helpu unigolion i sicrhau cyfleoedd am swyddi gwell a chyflogau uwch.
   - Cyllidebu ar sail Rhyw: Sicrhau bod penderfyniadau ynghylch gwariant yn ystyriol o'r effeithiau ar gydraddoldeb rhywiol, a bod colegau ac isgontractwyr yn ymgorffori’r ymagwedd hon wrth gynllunio a chyflenwi.
   - Cyngor ac Arweiniad Gyrfaoedd: Bydd cyfranogwyr yn cael cyngor gyrfa o safon, gan gynnwys asesiad annibynnol cyn dysgu, ac yn cwblhau cynllun dysgu unigol trwy Cymru'n Gweithio neu Sefydliadau Addysg Bellach.
   - Hyblygrwydd: Cynlluniwyd y rhaglen i fod yn ymatebol i'r economi, gan lenwi bylchau sgiliau mewn sectorau â blaenoriaeth a chynnig dewisiadau dysgu hygyrch ar yr un pryd er mwyn i unigolion gael penderfynu sut ac ymhle i astudio.

8. Gall unigolion wneud cais naill ai'n uniongyrchol i'r colegau neu drwy Cymru'n Gweithio. Bydd pob darparydd yn sicrhau bod ganddynt broses ar waith i gefnogi ceisiadau Cyfrif Dysgu Personol, i gynnal yr asesiad cychwynnol a phrosesu ymrestriadau. Ni ddylai mwy na 90 diwrnod fynd heibio rhwng derbyn cais a phan fydd yr ymgeisydd yn dechrau'r cwrs Cyfrif Dysgu Personol, er mwyn sicrhau bod y gyflogaeth ddilynol a nodwyd yn y cam asesu cychwynnol yn dal i fod yn berthnasol.

9. Rhaid cynnig cymorth cyflogadwyedd i bob ymgeisydd drwy Raglen Camau at Waith Gyrfa Cymru.[9] Lle mae unigolion wedi cadarnhau y byddent yn croesawu cael cymorth ychwanegol, rhaid i'r sefydliadau Addysg Bellach anelu i ddarparu'r offer sydd eu hangen arnynt.

10. Rhaid i Sefydliadau Addysg Bellach gymell pob unigolyn i fanteisio ar y cymorth y mae Canolfannau Cyflogaeth Gyrfa Cymru yn ei gynnig neu gael eu canolfannau cyflogaeth eu hunain a rhanddeiliaid allweddol eraill sy'n gwbl gymwys i helpu cyfranogwyr i gael mynediad at gyfleoedd gwaith.

11. Rhaid rhoi cyfle i ddysgwyr fynychu cyrsiau mewn amgylchedd cyflwyno wyneb yn wyneb / uniongyrchol gan amlaf. Ni ddylid ond defnyddio eDdysgu / hunanastudio mewn achosion eithriadol, lle daw amgylchiadau unigol penodol i'r amlwg, ac ni ddylai hynny gyfrif am fwy na 10% o gyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw gymhwyster penodol.

12. Mae Medr yn deall y gall amgylchiadau personol unigolion newid, ac y gallai sefyllfaoedd godi lle na all cyfranogwyr barhau â'u cwrs. Os bydd unigolyn yn tynnu'n ôl o gwrs Cyfrif Dysgu Personol, ac wedyn yn gwneud cais am gwrs arall, caiff

[9] Mae'r cymorth hwn yn cynnwys llunio CV, mynediad i'r Bwletin Swyddi Gwag, chwilio am swydd, gwneud cais am swydd, technegau cyfweliad, y Rhaglen Cyflogadwyedd Rhyngweithiol.

colegau ddewis ymrestru'r dysgwr hwnnw neu beidio fesul achos, ar yr amod ei fod yn dal i fodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y rhaglen.

13. Rhaid i Sefydliadau Addysg Bellach beidio â darparu mathau o gyrsiau sydd oddi mewn i'r gofynion statudol fel y'u diffinnir yn y *Fframwaith Cyllido Ôl-16 - Canllawiau*[10] ac unrhyw weithgareddau fel: cwrs gloywi, ailasesiad, prawf / arholiad neu ailsefyll yn unig.

14. Gall sefydliadau Addysg Bellach is-gontractio darpariaeth y cymwysterau sy'n gymeradwy o dan y rhaglen i sefydliadau eraill. Mae Medr yn annog ymagwedd gydweithredol sy'n bodloni anghenion yr unigolyn orau. Rhaid i golegau sicrhau bod gan unrhyw is-gontractwyr y polisïau a'r prosesau ansawdd a chyfle cyfartal priodol yn eu lle, gan gynnwys ymrwymiadau i'r Gymraeg a chydraddoldeb rhywiol. Rhaid i'r darparydd arweiniol wneud trefniadau i sicrhau bod yr adnoddau a delir i gorff cydweithredol yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian[11]. Gall is-gontractwyr hysbysebu'r Rhaglen Cyfrif Dysgu Personol eu hunain ond dim ond os ydynt yn nodi enw'r coleg arweiniol yn glir.

15. Rhaid i Sefydliadau Addysg Bellach sicrhau bod unrhyw weithgarwch marchnata a chyfathrebu a gyflawnir yn gysylltiedig â'r Cyfrif Dysgu Personol yn groes i'r Fanyleb Rhaglen hon. Efallai y bydd yn ofynnol i golegau gymryd rhan ar y cyd mewn gweithgareddau marchnata, ymgyrchoedd cenedlaethol, ymweliadau gan Weinidogion, mentrau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, gweithgarwch y wasg a chyhoeddusrwydd yn ôl yr hyn a bennir gan Medr, a darparu astudiaethau achos fel bo'r angen.

16. Mae'n ofynnol i ddarparwyr ddangos ar eu gwefannau y rhestr lawn o gyrsiau y maent yn eu darparu a chyfathrebu â Gyrfa Cymru ynghylch y manylion hyn cyn dechrau'r flwyddyn academaidd, neu pan fydd darpariaeth newydd ar gael drwy gydol y flwyddyn academaidd, er mwyn sicrhau bod platfform Chwiliadur Cyrsiau Gyrfa Cymru[12] yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am Raglen y Cyfrif Dysgu Personol i unigolion yng Nghymru.

## Cymhwystra Dysgwyr a Gofynion Mynediad

17. I fod yn gymwys ar gyfer y rhaglen, rhaid i unigolion:
    - fyw yn gyfreithlon yng Nghymru; a
    - bod yn 19 oed neu'n hŷn.

18. Yn ogystal â hynny, rhaid i unigolion fod yn:
    - gyflogedig (gan gynnwys contractau Asiantaeth a dim oriau); neu'n
    - hunangyflogedig; neu'n
    - ofalwyr amser llawn (gan gynnwys gofal di-dâl);

[10] Gweler y ddogfen yn Cyllid i ddarparwyr.
[11] Gweler Adran 109 (3) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.
[12] Gweler Chwiliadur Cyrsiau Gyrfa Cymru.

- A rhaid i'w cyflog sylfaenol blynyddol[13] beidio bod yn uwch na'r ffigur canolrifol blynyddol gros mwyaf cyfredol ar gyfer oedolion sy'n gweithio'n llawnamser yng Nghymru[14].

19. Ystyrir bod unigolion yn anghymwys os ydynt, ar adeg ymgeisio:
    - dan 19 oed; neu'n
    - yn wladolyn tramor anghymwys; neu'n
    - ddi-waith (h.y. nid oes ganddynt gontract cyflogaeth); neu'n
    - mynychu ysgol, addysg bellach amser llawn neu unrhyw fath o addysg uwch; neu'n
    - derbyn Grant Dysgu'r Cynulliad neu Lwfans Cynhaliaeth Addysg; neu
    - ar gwrs Dysgu Seiliedig ar Waith a ariennir gan Medr.

20. Cynhelir prawf o gymhwystra wrth ymgeisio, ar wahân i'r maen prawf oedran, a ddilysir wrth ddechrau'r cwrs. Mae'n rhaid i'r Sefydliadau Addysg Bellach gadarnhau bod yr unigolyn yn gymwys i ddilyn y rhaglen cyn y gellir dechrau dysgu.

## Cynnwys y Rhaglen

21. Mae Rhaglen y Cyfrif Dysgu Personol yn cynnig cyfle i'r Sefydliadau Addysg Bellach gyflenwi cymwysterau na fyddent wedi cael eu darparu'n flaenorol mewn niferoedd mawr. Efallai na fyddai wedi bod yn ymarferol yn economaidd i gynnwys y cymwysterau hyn, sydd mewn meysydd arbenigol neu niche, o dan drefniadau cyllido blaenorol, ac y gallent nawr hefyd ysbrydoli camau i wneud hyfforddiant mewn sectorau nad ydynt yn seiliedig ar stereoteip yn fwy deniadol o safbwynt rhywedd.

22. Cyhoeddir cymwysterau sy'n gymwys i'w darparu drwy raglen y Cyfrif Dysgu Personol ar blatfform LLWR Inform[15] ac fe'u darperir drwy Gyrfa Cymru. Mae'r ddarpariaeth wedi'i halinio â blaenoriaethau cenedlaethol i sicrhau bod y rhaglen yn bodloni anghenion economaidd ac yn mynd i'r afael â phrinder sgiliau ledled Cymru. Mae'r ystod o ddarpariaeth gymeradwy yn cynnwys cymwysterau a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru[16] yn ogystal â chymwysterau sydd heb eu rheoleiddio[17].

23. Bydd Medr yn parhau i ystyried ceisiadau i gymeradwyo cymwysterau newydd drwy gyfarfodydd panel misol. Yn y lle cyntaf, rhaid i bob cais newydd gael ei gefnogi gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol berthnasol. Lle bo'n briodol, bydd arweinwyr polisi allweddol mewn sectorau fel Digidol a Sero Net yn cael gwahoddiad i gyfarfodydd panel, i gynghori ynghylch y cymwysterau dan ystyriaeth. Mae hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw gymwysterau newydd sy'n cael eu hychwanegu at raglen y Cyfrif Dysgu Personol yn berthnasol.

---

[13] Wrth gyfeirio at gyflog sylfaenol, rydym yn cyfeirio at yr hyn a elwir hefyd yn "gyflog sylfaen", ac mae'n golygu'r swm y mae cyflogai'n ei ennill cyn ychwanegu unrhyw daliadau atodol neu ddidynnu unrhyw daliadau.

[14] Ar gyfer ymyriadau a gadarnhawyd ar gyfer y Cyfrif Dysgu Personol (Digidol, Sero Net a Tata) nid yw'r cap cyflog yn berthnasol.

[15] Gweler LLWR-Inform - LLWR LA06/AW08 Lookup

[16] Gweler Cymwysterau yng Nghymru.

[17] Ni chaiff y cymwysterau hyn eu goruchwylio gan gyrff rheoleiddio swyddogol fel Cymwysterau Cymru, Ofqual (yn Lloegr), nac Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA). Maent fel arfer yn cael eu creu a'u dyfarnu gan sefydliadau preifat, cwmnïau neu ddarparwyr hyfforddiant.

24. Rhaid dilyn y broses ganlynol ar gyfer pob cymhwyster a gynigir:
- Cam 1: Cais gan Sefydliad Addysg Bellach
- Cam 2: Asesiad gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol
- Cam 3: Gwerthusiad gan Banel Medr

25. Cam 1: Sefydliad Addysg Bellach yn paratoi a chyflwyno'r cais i'w Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol perthynol drwy'r ffurflen gymeradwy[18].

26. Cam 2: Bydd y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn adolygu'r cynnig, yn asesu i ba raddau y mae'r cymhwyster yn bodloni anghenion yr economi o fewn eu rhanbarth, ac ond yn trosglwyddo'r cais i Medr os gallant roi rhesymau i gefnogi cymeradwyo'r cais.

27. Cam 3: Bydd Medr yn asesu'r holl geisiadau a dderbynnir ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Sefydliad Addysg Bellach a'r argymhelliad gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

28. Bydd canlyniadau gwerthusiad y panel yn cael eu rhannu â'r holl randdeiliaid drwy fwletin misol. Os gwrthodir cais, gall y Sefydliad Addysg Bellach apelio drwy gyflwyno tystiolaeth ddiwygiedig i Uwch Dîm Arwain Medr er ystyriaeth bellach. Bydd Uwch Dîm Arwain Medr yn asesu'r holl wybodaeth ac yn dod i benderfyniad terfynol.

## Gofynion Cyflwyno Data

29. Bydd Medr yn defnyddio data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) i fonitro darpariaeth y rhaglen a deilliannau dysgu Rhaglen y Cyfrif Dysgu Personol. Mae Llawlyfr Cefnogi Defnyddwyr LLWR[19] yn nodi'r canllawiau y dylai darparwyr eu dilyn wrth gyflwyno data LLWR.

30. Yn unol â'r amodau a nodir yn y *Llythyr Dyfarnu Grant* blynyddol, rhaid i'r Sefydliadau Addysg Bellach sicrhau bod data yn cael eu cyflwyno yn brydlon ac yn y fformat cywir.

## Codau Rhaglen

31. Rhaid defnyddio’r codau rhaglen canlynol (LP74) ar gyfer dysgwyr ar Raglen y Cyfrif Dysgu Personol, fel bo’n berthnasol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9700AXXV | Darpariaeth PLA Haen 1 | 9700BXXV | Darpariaeth PLA Haen 2 |
| 9700CXXV | Darpariaeth PLA Haen 3 | 9700DXXV | Darpariaeth PLA Haen 4 |
| 9700EXXV | Darpariaeth PLA Haen 5 | 9700FXXV | Darpariaeth PLA Haen 6 |
| 9700GXXV | Darpariaeth PLA Haen 7 | 9700HXXV | Darpariaeth PLA Haen 8 |
| 9700IXXV | Darpariaeth PLA Haen 9 | 9700JXXV | Darpariaeth PLA Haen 10 |
| 9700KXXV | Darpariaeth PLA Haen 11 | 9700LXXV | Darpariaeth PLA Haen 12 |
| 9700MXXV | Darpariaeth PLA Haen 13 | 9700NXXV | Darpariaeth PLA Haen 14 |

[18] Gweler Atodiad B.
[19] Gellir cyrchu hwn yn Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR).

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9700OXXV | Darpariaeth PLA Haen 15 | 9700PXXV | Darpariaeth PLA Haen 16 |
| 9700QXXV | Darpariaeth PLA Haen 17 | 9700RXXV | Darpariaeth PLA Haen 18 |
| 9700SXXV | Darpariaeth PLA Haen 19 | 9700TXXV | Darpariaeth PLA Haen 20 |
| 9700UXXV | Darpariaeth PLA Haen 21 | 9700VXXV | Darpariaeth PLA Haen 22 |
| 9700WXXV | Darpariaeth PLA Haen 23 | 9700XXXV | Darpariaeth PLA Haen 24 |
| 9700YXXV | Darpariaeth PLA Haen 25 | 9700ZXXV | Darpariaeth PLA Haen 26 |

### Gwybodaeth am Gyllido

32. Bydd uchafswm gwerth y cyllid Cyfrif Dysgu Personol fesul dysgwr y gall Sefydliad Addysg Bellach ei dderbyn dros un flwyddyn academaidd wedi'i gapio ar gyfanswm y gwerth ar gyfer y band uchaf.[20]

## Monitro ac Archwilio

33. Bydd monitro ac archwilio yn cyfrannu at sicrhau bod y canllawiau'n cael eu cymhwyso mewn modd cyson ac yn helpu i asesu a yw polisïau, gweithdrefnau a rheolaethau'n ddigonol.

### Dull Monitro

34. Canolbwyntir ar y meysydd canlynol wrth fonitro:
    - cydymffurfio â manylebau'r rhaglen; a
    - deilliannau dysgu'r rhaglen.

    Cyflawnir hyn drwy fonitro ar ddiwedd blwyddyn; ymarfer paru data; a phrofion archwilio manwl o ddysgwyr ar Raglenni Cyfrif Dysgu Personol.

### Cydymffurfio â Manyleb y Rhaglen

35. Bydd Medr yn defnyddio'r data a gyflwynir drwy'r LLWR i fonitro cydymffurfiaeth â manyleb y rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys:
    - monitro ymrestriadau dysgwyr yn erbyn data cynlluniedig; a
    - monitro'r setiau data rhaglen a gweithgareddau i sicrhau bod gofynion darparu yn cael eu bodloni.

### Deilliannau Dysgu

36. Adroddir am ddeilliannau ar gyfer y gweithgareddau dysgu a gyflawnir yn rhan o’r rhaglen drwy’r mesurau cyflawniad, rhan o’r Mesurau Perfformiad Cyson ar gyfer Dysgu Ôl-16 a byddant wedi’u cynnwys yn yr adroddiadau ar gyflawniad a gyflwynir I Sefydliadau Addysg Bellach.

37. Mae dilyniant a chyrchfannau dysgwyr yn fesur perfformiad allweddol ar gyfer y rhaglen ac yn hollbwysig wrth werthuso darpariaeth y rhaglen. Mae Medr yn parhau i ddatblygu ei drefniadau i adrodd ar ddilyniant a chyrchfannau dysgwyr yn seiliedig ar

[20] Hwn yw *Darpariaeth PLA Haen 26* a gellir gweld y gwerth yn y *Fframwaith Cyllido Ôl-16 - Canllaw a Chyfeiriadur Rhaglenni.*

ddata cysylltiedig, a bydd adroddiadau ar y rhaglen yn cael eu hymgorffori yn y mesurau hyn yn y dyfodol. Disgwylir y bydd mwyafrif y dysgwyr sy'n llwyddo i gwblhau Rhaglen Cyfrif Dysgu Personol yn symud ymlaen i swyddi gwell.

## Profion Archwilio

38. Yn ogystal â'r dull monitro a nodir uchod, bydd data a ddychwelir gan sefydliadau Addysg Bellach yn ddarostyngedig i ofynion archwilio diwedd blwyddyn presennol[21]. Yn rhan o hyn, rhoddir pwyslais neilltuol yn y *Nodiadau Cyfarwyddyd i Archwilwyr* er mwyn sicrhau bod archwilwyr allanol yn profi samplau priodol o ddysgwyr sy'n dilyn y Rhaglen Cyfrif Dysgu Personol.

## Manylion Cyswllt

39. Ar gyfer unrhyw ymholiadau'n gysylltiedig â chynnwys y Fanyleb Rhaglen hon, cysylltwch â Medr: buddsoddiadamonitro@medr.cymru.

[21] Cyhoeddir y gofynion archwilio ar gyfer y flwyddyn gyfredol ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

## Atodiadau

### A. Rhestr Wirio Cymhwystra

#### Enw Llawn ac Oedran

Un o'r canlynol:
- tystysgrif geni (ac arni enw llawn yr ymgeisydd)
- pasbort dilys (y DU ac o'r tu allan i'r DU)
- cardiau adnabod o wlad yn yr UE neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)
- Cerdyn trwydded yrru â llun y DU (llawn neu dros dro)
- Trwyddedau gyrru'r UE neu'r AEE

#### Preswyliad Cyfreithiol yng Nghymru[22]

Un o'r canlynol ar gyfer pob ymgeisydd:
- unrhyw ddogfennau o'r DU nas defnyddiwyd uchod yn barod
- bil / llythyr hawlio / tystysgrif eithrio'r dreth gyngor a gyhoeddwyd o fewn 12 mis
- cyfriflen banc/cymdeithas adeiladu neu undeb credyd a gyhoeddwyd o fewn y 3 mis diwethaf
- llythyr hawl i fudd-daliadau a gyhoeddwyd o fewn y 12 mis diwethaf
- Hysbysiadau treth CThEF a gohebiaeth a gyhoeddwyd o fewn y 3 mis diwethaf
- bil cyfleustodau (nwy, trydan, dŵr, ffôn llinell dir) a gyhoeddwyd o fewn y 3 mis diwethaf
- cytundeb tenantiaeth gan gyngor lleol neu gymdeithas dai a gyhoeddwyd o fewn 12 mis

AC, i unrhyw un nad yw'n ddinesydd Prydeinig neu Wyddelig, un ddogfen arall a fydd yn dangos:
- statws cyn-sefydlog neu sefydlog drwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE
- caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r DU (ILE) neu i aros ynddi (ILR)
- eithrio o reolaeth fewnfudo
- fisa cymeradwy
- trwydded teulu gyfredol
- statws ceisiwr lloches neu ffoadur

#### Nodweddion Cyflogaeth

Mae angen i Unigolion Cyflogedig (gan gynnwys rhai 'mewn perygl o gael eu diswyddo' a 'charcharorion ar ryddhad diwrnod'), sy'n gweithio'n llawnamser neu'n rhan-amser i gyflogwr neu fel staff asiantaeth ddarparu:
- slipiau cyflog ar gyfer y 3 mis blaenorol cyn gwneud cais (diwedd pob mis os telir yn wythnosol)

  NEU
- y slip cyflog diwethaf os cafodd ei hanfon o fewn y mis cyn cyflwyno'r cais, ac sy'n dangos y gwerth yn y flwyddyn hyd yma

---

[22] Am wybodaeth lawn a manwl ynghylch cymhwystra dysgwyr, darllenwch *Fframwaith Cyllido Ôl-16 - Canllawiau*

Rhaid i garcharorion sy’n cael eu rhyddhau am y dydd hefyd ddarparu:

- Dogfennau Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro (ROTL) - Dogfennau Rhyddhau ar Ddiwrnod Ailsefydlu (RDR)

Mae angen i unigolion ar gontractau dim oriau AC nad ydynt yn hunangyflogedig ddarparu:

- contract cyflogaeth cyfredol a gyhoeddwyd o fewn y 3 mis diwethaf AC sy'n dal yn ddilys

Mae angen i unigolion hunangyflogedig ddarparu'r canlynol:

- prawf eu bod yn hunangyflogedig, er enghraifft Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR)
- Ffurflen Dreth hunanasesiad fwyaf cyfredol i Gyllid a Thollau EF (CThEF)
- hunanddatganiad yn cadarnhau na fydd eu hincwm personol a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol yn mynd heibio'r ffigwr incwm canolrifol perthnasol; rhaid iddo gynnwys y canlynol o leiaf: enw llawn, dyddiad geni, cyfeiriad, enw cwmni, llofnod

Mae’n rhaid i Ofalwyr Amser Llawn (cyflogedig neu ddi-dâl) ddarparu o leiaf un o’r dogfennau canlynol (dyddiedig o fewn y 12 mis diwethaf ac yn dal i fod yn ddilys):

- Llythyr Lwfans Gweini (AA)
- Llythyr Dyfarnu Lwfans Gofalwr
- Llythyr Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)
- Taliadau Annibyniaeth Personol (PIP)
- Taliadau Annibyniaeth y Lluoedd Arfog (AFIP)

## B. Cais am Gymhwyster Newydd

### Rhan 1: Cais gan Sefydliad Addysg Bellach

| **1(a) Coleg** | |
|---|---|

| **1(b) Teitl y Cymhwyster** | |
|---|---|

| **1(c) Dolen i'r Cymhwyster ar wefan y Corff Dyfarnu** | |
|---|---|

| **1(ch) Haen Gyllido Arfaethedig** | |
|---|---|

| **1(d) Tystiolaeth o Angen** |
|---|
| *Mae cymwysterau PLA yn cael eu darparu i gefnogi angen presennol, neu sy'n dod i'r amlwg, am sgiliau mewn sector â blaenoriaeth. Dylech gynnwys tystiolaeth o wybodaeth am y farchnad lafur neu drwy ddulliau eraill.* |

| **1(dd) Tystiolaeth o Ragolygon Cyflogaeth a Dilyniant** |
|---|
| *Dylech gynnwys tystiolaeth o'r mathau o swyddi sydd ar gael i gyfranogwyr ar ôl iddynt ennill y cymhwyster, a nifer y swyddi hynny. Beth yw'r dilyniant o ran cyflogaeth? Beth yw'r cyflogau posibl o gymharu â'r cyflog canolrifol?* |

| **1(e) Dull sy'n Canolbwyntio ar Ryw** |
|---|
| *Pa ystyriaeth a roddwyd i'r modd y bydd gweithrediad ymarferol a darpariaeth y cwrs hwn yn effeithio ar wahanol ryweddau?* |

| **1(f) Gwybodaeth Ychwanegol** |
|---|
| *Cadarnhewch unrhyw dystiolaeth ategol arall, os oes peth ar gael.* |

### Rhan 2: Asesiad gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

| **2(a) Tystiolaeth o Angen** |
|---|
| *Sut mae'r cymhwyster yn mynd i'r afael â phrinder sgiliau / y galw o ran cyflogaeth yn y rhanbarth?* |

| **2(b) Gwybodaeth Ychwanegol** |
|---|
| *Cadarnhewch unrhyw wybodaeth ategol arall, os oes peth ar gael.* |

### Rhan 3: Gwerthusiad gan Banel Medr

| **3(a) Asesiad Panel** |
|---|
| *A yw'r cymhwyster yn cyd-fynd â'r sectorau â blaenoriaeth? A yw'n bodloni nodau'r rhaglen o ran darparu'r sgiliau gofynnol ar gyfer diwydiant? A yw'r wybodaeth a ddarparwyd gan y SAB a'r PSRh i roi tystiolaeth o'r angen yn ymdrin â gofynion y rhaglen? A yw'r dystiolaeth o gyflogaeth a dilyniant wedi'i phennu/nodi'n glir ac yn cyflawni nodau'r rhaglen? A aethpwyd i'r afael â'r dull sy'n canolbwyntio ar rywedd? A dybir bod y gwerth/haen cyllido arfaethedig yn briodol? Unrhyw sylwadau eraill?* |

## C. Proses y Panel PLA – Adolygiad o Werthoedd Cyllido

Yn ogystal â chyflwyno ceisiadau am raglenni newydd, efallai y bydd Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) yn canfod achosion lle nad yw'r haen gyllido gyfredol ar gyfer cymhwyster cymeradwy yn briodol neu'n hyfyw yn ariannol. Mewn achosion o'r fath, gall darparwyr gyflwyno cais i banel Medr adolygu gwerth presennol y rhaglen.

**Cam 1 – Cyflwyniad gan y SAB i Medr**

Mae'n rhaid i'r SAB lenwi ffurflen *Cais am Gymhwyster Newydd / Cais i Ddiwygio Cymhwyster* (Atodiad A). Ar gyfer ceisiadau i adolygu'r haen gyllido, rhaid cyflwyno'r wybodaeth ganlynol yn rhan o'r cais:

- Teitl y cymhwyster a'r haen gyllido gyfredol;
- Yr haen gyllido ddiwygiedig a gynigir;
- Cyfiawnhad clir dros y newid a gynigir, wedi'i gefnogi gan dystiolaeth fanwl, fel dadansoddiad o'r costau, gwybodaeth am y farchnad lafurar, adborth gan gyflogwyr a darpariaeth debyg;
- Asesiad o unrhyw effeithiau posibl ar fynediad dysgwyr ac/neu hyfywedd y rhaglen.

**Cam 2 – Adolygiad a Phenderfyniad Panel Medr**

Yng nghyfarfod nesaf panel misol Medr (a gynhelir ar drydydd dydd Mawrth bob mis), bydd y panel yn ystyried y cais ochr yn ochr â'r ffactorau canlynol:

- Dadansoddiad o'r farchnad lafur genedlaethol a rhanbarthol;
- Cysondeb o ran y dulliau cyllido ledled Cymru;
- Nodau'r rhaglen bresennol; a'r
- Effeithiau ar werth cyhoeddus a deilliannau dysgwyr.

Gall y panel benderfynu:

- Cymeradwyo'r haen gyllido ddiwygiedig;
- Gwrthod y cais, gan roi rhesymau clir;
- Gofyn am dystiolaeth ychwanegol; neu
- Ohirio'r penderfyniad er mwyn ystyried y polisi ehangach. Mewn achosion o'r fath, bydd y cais yn cael ei atgyfeirio i Uwch Dîm Arwain (UDA) Medr er ystyriaeth bellach.

Bydd canlyniad adolygiad y panel yn cael ei rannu â'r SAB drwy e-bost, a'i rannu â'r sector drwy'r bwletin misol dilynol.

**Cam 3 – Ailgyflwyno ar ôl i Gais gael ei Wrthod (Dewisol)**

Os caiff cais i adolygu haen gyllido ei wrthod yn dilyn ystyriaeth yr UDA, Ni chaiff SABau ailgyflwyno'r cais ond os oes tystiolaeth newydd ar gael, neu os yw'r dystiolaeth yn wedi'i chryfhau'n sylweddol.

Wedi i'r panel gymeradwyo cymhwyster, caiff yr wybodaeth hon ei throsglwyddo i'r timau LLWR yn Medr a Llywodraeth Cymru er mwyn gwneud y newidiadau i'r tablau chwilio perthnasol yn LLWR.

## D. Casglu Data

### Set Ddata LLWR y Dysgwr

| Enw'r Maes | Cod | Disgrifiad o'r Maes | Nodiadau / Gwerth(oedd) Maes Dilys |
|---|---|---|---|
| ULI | LN01 | Rhif adnabod unigryw ar gyfer pob dysgwr a ddarperir gan Lywodraeth Cymru | Mae'r ULI yn wag wrth gyflwyno am y tro cyntaf, wedyn yn cael ei lenwi ar ffurflenni dilynol. |
| Rhif Adnabod y Dysgwr | LN02 | Rhif adnabod ar gyfer y dysgwr, wedi'i ddyrannu gan y darparydd dysgu | Gall gynnwys hyd at 20 nod alffaniwmerig neu ddigidau rhifol neu gyfuniad o'r ddau a rhaid iddo beidio â chynnwys data personol a fyddai'n galluogi adnabod yr unigolyn. |
| Rhif Adnabod y Darparydd | LN03 | Cod adnabod ar gyfer y darparydd, fel y'i dyrannwyd gan Lywodraeth Cymru | Fel y'i diffinnir gan Lywodraeth Cymru |
| Cyfenw | LN04 | Enw teuluol y dysgwr | Unrhyw gyfuniad o werthoedd nodau alffaniwmerig derbyniol |
| Enw(au) cyntaf | LN05 | Enw(au) llawn y dysgwr | Unrhyw gyfuniad o werthoedd nodau alffaniwmerig derbyniol |
| Cyfeiriad 1 | LN06 | Llinell gyntaf cyfeiriad y dysgwr | Unrhyw gyfuniad o werthoedd nodau alffaniwmerig derbyniol |
| Cyfeiriad 2 | LN07 | Ail linell cyfeiriad y dysgwr | Unrhyw gyfuniad o werthoedd nodau alffaniwmerig derbyniol |
| Cyfeiriad 3 | LN08 | Trydedd llinell cyfeiriad y dysgwr | Unrhyw gyfuniad o werthoedd nodau alffaniwmerig derbyniol |
| Cyfeiriad 4 | LN09 | Pedwaredd llinell cyfeiriad y dysgwr | Unrhyw gyfuniad o werthoedd nodau alffaniwmerig derbyniol |
| Cyfeiriad 5 | LN10 | Pumed llinell cyfeiriad y dysgwr | Unrhyw gyfuniad o werthoedd nodau alffaniwmerig derbyniol |
| Cod Post | LN11 | Cod post cartref parhaol y dysgwr | Unrhyw linyn o nodau cod post sy'n ddilys yng Nghymru. |
| Ffôn | LN12 | Rhif ffôn cyswllt | Unrhyw gyfuniad o werthoedd nodau alffaniwmerig derbyniol |
| Rhif YG | LN13 | Rhif Yswiriant Gwladol | Unrhyw rif YG dilys |
| Cyfenw ar ben-blwydd y dysgwr yn 16 oed | LN14 | Enw teuluol y dysgwr ar ei ben-blwydd yn 16 oed | Unrhyw gyfuniad o werthoedd nodau alffaniwmerig derbyniol |
| Dyddiad Geni | LN15 | Dyddiad Geni | Rhaid i'r gwahaniaeth rhwng y Dyddiad Geni a Dyddiad Dechrau'r Rhaglen LP73 beisio dangos bod y dysgwr yn iau nag 19 oed |
| Rhywedd | LN16 | Rhywedd y dysgwr | G Gwryw / B Benyw / A Arall |
| Ethnigrwydd | LN17 | Tarddiad ethnig y dysgwr (hunanddisgrifiedig) | 12 Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig / 13 Gwyddelig / 14 Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig / 15 Unrhyw Gefndir Gwyn Arall / 16 Roma |

| Enw'r Maes | Cod | Disgrifiad o'r Maes | Nodiadau / Gwerth(oedd) Maes Dilys |
|---|---|---|---|
| | | | / 21 Caribïaidd / 22 Affricanaidd / 29 Unrhyw gefndir Du, Du Cymreig, Du Prydeinig neu Garibïaidd arall / 31 Indiaidd / 32 Pacistanaidd / 33 Bangladeshaidd / 34 Tsieineaidd / 39 Cefndir Asiaidd Arall / 41 Gwyn a Du Caribïaidd / 42 Gwyn a Du Affricanaidd / 43 Gwyn ac Asiaidd / 49 Unrhyw gefndir Cymysg neu Luosog arall / 50 Arabaidd / 80 Unrhyw grŵp ethnig arall / 90 Gwrthodwyd Rhoi Gwybodaeth (rhaid i'r darparydd gadw tystiolaeth i ddangos ei fod wedi gofyn i'r dysgwr am yr wybodaeth) |
| Prawf Adnabod Cenedlaethol | LN18 | Hunaniaeth genedlaethol y dysgwr | WAL Cymraeg / WEL Saesneg / SCO Albanaidd / IRE Gwyddelig / BRI Prydeinig / BNO Gwladolyn Prydeinig o Hong Kong / OTH Arall |
| ULN | LN22 | Rhif Unigryw y Dysgwr | Mae angen ULN dilys. Rhaid i ddarparwyr gofrestru pob dysgwr drwy ddefnyddio'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu (LRS) |
| Cyfeiriad e-bost | LN23 | Cyfeiriad E-bost y Dysgwr | Rhaid iddo fod yn gyfeiriad e-bost dilys a gweithredol neu 000000000000000 Ddim ar gael |

**Set Ddata LLWR y Rhaglen Ddysgu**

| Enw'r Maes | Cod | Disgrifiad o'r Maes | Nodiadau / Gwerth(oedd) Maes Dilys |
|---|---|---|---|
| ULI | LP01 | Rhif adnabod unigryw ar gyfer pob dysgwr | Pennir hyn gan Lywodraeth Cymru |
| Rhif Adnabod y Dysgwr | LP02 | Rhif adnabod ar gyfer y dysgwr, wedi'i ddyrannu gan y darparydd dysgu | Unrhyw gyfuniad o werthoedd nodau alffaniwmerig derbyniol |
| Rhif Adnabod y Darparydd | LP03 | Cod adnabod ar gyfer y darparydd, fel y'i dyrannwyd gan Lywodraeth Cymru | Fel y'i diffinnir gan Lywodraeth Cymru ar LLWR-Inform |
| Rhif Adnabod y Rhaglen | LP04 | Rhif adnabod ar gyfer pob rhaglen ddysgu gyda darparydd ar gyfer y dysgwr hwn | Rhif dilyniannol y rhaglen ddysgu (01-99) a dyddiad dechrau'r rhaglen ddysgu, ar ffurf "XXddmmbbbb" |
| Domisil | LP08 | Gwlad lle mae'r dysgwr yn byw cyn dechrau'r rhaglen ddysgu | XI (Cymru) |
| Dechrau'r Cod Post | LP09 | Cod post y dysgwr ar ddechrau ei Raglen Ddysgu | Unrhyw linyn o nodau cod post sy'n ddilys yng Nghymru. |

| Enw'r Maes | Cod | Disgrifiad o'r Maes | Nodiadau / Gwerth(oedd) Maes Dilys |
|---|---|---|---|
| Awdurdod Lleol | LP10 | Cod yr awdurdod unedol lle mae’r dysgwr yn byw ar ddechrau’r rhaglen ddysgu | 660 Ynys Môn / 661 Gwynedd / 662 Conwy / 663 Sir Ddinbych / 664 Sir y Fflint / 665 Wrecsam / 666 Powys / 667 Ceredigion / 668 Sir Benfro / 669 Sir Gaerfyrddin / 670 Abertawe / 671 Castell-nedd Port Talbot / 672 Pen-y-bont ar Ogwr / 673 Bro Morgannwg / 674 Rhondda Cynon Taf / 675 Merthyr Tudful / 676 Caerffili / 677 Blaenau Gwent / 678 Torfaen / 679 Sir Fynwy / 680 Casnewydd / 681 Caerdydd |
| Statws Cyflogaeth ar Ddechrau'r Rhaglen | LP11 | Statws cyflogaeth dysgwyr ar ddechrau'r rhaglen | 1 Cyflogedig (ac eithrio hunangyflogedig) / 5 Hunangyflogedig |
| Enw'r Cyflogwr | LP12 | Enw cyflogwr neu ddarparydd lleoliad y dysgwr ar ddechrau’r Rhaglen Ddysgu | Unrhyw enw dilys |
| Côd Post y Cyflogwr | LP13 | Cod post cyflogwr y dysgwr ar ddechrau'r Rhaglen Ddysgu | Unrhyw godau post dilys |
| Math o Raglen Ddysgu | LP17 | Prif fath o ddysgu ar gyfer y rhaglen | 92 (AB Arall) |
| Cymhwyster Uchaf wrth Ddechrau | LP22 | Lefel y cymhwyster uchaf a enillwyd cyn y rhaglen ddysgu (cyfwerth â FfCChC) | 0 Lefel Cyn Mynediad / E FfCChC Lefel Mynediad / 1 FfCChC Lefel 1 (e.e. FfCCh Lefel 1/TGAU D-G / 2 FfCCh Lefel 2 (e.e. FfCCh Lefel 2/TGAU A*-C / 3 FfCCh Lefel 3 (e.e. FfCCh Lefel 3/Safon Uwch / 4 FfCChC Lefel 4 (e.e. Tystysgrif AU/HNC) / 5 FfCChC Lefel 5 (e.e. Canolradd Addysg Uwch) / 6 FfCChC Lefel 6/Gradd Anrhydedd AU / 7 Gradd Meistr AU / 8 FfCChC Lefel 8/Doethuriaeth AU |
| Dangosydd Siaradwyr Cymraeg | LP23 | A yw'r dysgwr yn ystyried ei hun yn siaradwr Cymraeg | 1 Siaradwr Cymraeg rhugl / 2 Siaradwr Cymraeg heb fod yn rhugl / 3 Di-Gymraeg |
| Math o Anabledd 1 | LP30 | Y prif fath o anabledd ac/neu anhawster dysgu, fel y nodir gan y dysgwr | 21 Nam ar y golwg / 22 Nam ar y clyw / 23 Anawsterau corfforol ac/neu feddygol / 24 Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol / 25 Nam amlsynhwyraidd / 26 Anhwylderau ar y sbectrwm awtistig / 27 Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu / 28 Anawsterau Dysgu Cymedrol / 29 Anawsterau Dysgu Difrifol / 30 Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog / 32 |

| Enw'r Maes | Cod | Disgrifiad o'r Maes | Nodiadau / Gwerth(oedd) Maes Dilys |
|---|---|---|---|
| | | | Anawsterau Dysgu Penodol - Dyslecsia / 33 Anawsterau Dysgu Penodol - Dyscalcwlia / 34 Anawsterau Dysgu Penodol - Dyspracsia / 35 Anawsterau Dysgu Penodol - Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd / 91 Ddim yn berthnasol / 92 Mae'r dysgwr yn ystyried bod ganddo/ganddi anhawster dysgu ac/neu anabledd ond nid yw'r math yn hysbys neu wedi'i ddatgan / 96 Gwrthod Rhoi Gwybodaeth (rhaid i'r darparydd gadw tystiolaeth i ddangos ei fod wedi gofyn i'r dysgwr am yr wybodaeth) |
| Math o Anabledd 2 | LP31 | Mae’r maes hwn yn cofnodi’r ail fath o anabledd ac/neu anhawster dysgu sydd gan ddysgwr, lle bo ganddo ail fath o anabledd/anhawster dysgu | 21 Nam ar y golwg / 22 Nam ar y clyw / 23 Anawsterau corfforol ac/neu feddygol / 24 Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol / 25 Nam amlsynhwyraidd / 26 Anhwylderau'r sbectrwm awtistig / 27 Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu / 28 Anawsterau Dysgu Cymedrol / 29 Anawsterau Dysgu Difrifol / 30 Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog / 32 Anawsterau Dysgu Penodol - Dyslecsia / 33 Anawsterau Dysgu Penodol - Dyscalcwlia / 34 Anawsterau Dysgu Penodol - Dyspracsia / 35 Anawsterau Dysgu Penodol - Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd / 91 Ddim yn berthnasol |
| Rheswm dros Derfynu Rhaglen Ddysgu | LP41 | Y rheswm pam bod y dysgwr yn terfynu ei raglen ddysgu | 01 Cwblhau'r Rhaglen Ddysgu / 02 Methu (cyn diwedd y Rhaglen Ddysgu) / 04 Rhesymau iechyd / 05 Marwolaeth / 06 Rhesymau ariannol / 07 Rhesymau personol eraill sy'n arwain at roi'r gorau iddi / 09 Gwahardd / gadael mewn sefyllfa wael / 11 Arall (rhaid i'r darparydd gadw tystiolaeth i ddangos ei fod wedi gofyn i'r dysgwr am yr wybodaeth) / 12 Trosglwyddo i ddarparwr arall / 13 Trosglwyddo i Raglen Ddysgu arall gyda'r un darparydd / 14 Wedi mynd i gyflogaeth yn gysylltiedig â'r Rhaglen Ddysgu / 15 Wedi mynd i gyflogaeth arall / 16 Diswyddo / 99 Rheswm dros adael yn anhysbys |
| Rheolau Cyllido | LP51 | Cod ar gyfer rhaglenni arbennig neu dymor byr | PLA Craidd / PLD Digidol / PLG Sero Net / PLT Tata |

| Enw'r Maes | Cod | Disgrifiad o'r Maes | Nodiadau / Gwerth(oedd) Maes Dilys |
|---|---|---|---|
| Rhaglenni Arbennig | | | |
| Dyddiad Terfynu'r Rhaglen Ddysgu | LP55 | Y dyddiad pan orffennodd y dysgwr ei raglen ddysgu (h.y. y cwblhaodd yr holl weithgareddau'n gysylltiedig â'r rhaglen ddysgu neu'r dyddiad pan adawodd y rhaglen) | Unrhyw ddyddiad dilys. Nid dyma'r dyddiad pan gyflwynwyd holl ganlyniadau'r dyfarniad. Rhaid cwblhau'r maes hwn pan fydd y dysgwr yn peidio ag ymgymryd â'r holl weithgareddau dysgu cysylltiedig, waeth a yw wedi gorffen yr holl ddysgu gofynnol ai peidio. |
| Cyflwr Iechyd sy'n Cyfyngu ar y Gallu i Weithio | LP56 | Manylion ynghylch a oes gan y dysgwr gyflwr iechyd sy’n cyfyngu ar ei allu i weithio ar ddechrau’r rhaglen ddysgu | 1 Y dysgwr wedi cadarnhau cyflwr iechyd sy’n cyfyngu ar y gallu i weithio / 2 Y dysgwr wedi cadarnhau nad oes ganddo/ganddi unrhyw gyflwr iechyd sy’n cyfyngu ar y gallu i weithio / 8 Gwrthod Rhoi Gwybodaeth (rhaid i’r darparydd gadw tystiolaeth i ddangos ei fod wedi gofyn i’r dysgwr am yr wybodaeth) |
| Dangosydd gweithiwr mudol | LP60 | Manylion ynghylch a yw dysgwr yn weithiwr mudol | 1 Mae’r dysgwr yn weithiwr mudol (UE) / 2 Mae’r dysgwr yn weithiwr mudol (heblaw am yr UE) / 3 Nid yw’r dysgwr yn weithiwr mudol nac yn Ffoadur / 4 Mae’r Dysgwr yn Ffoadur / 8 Gwrthod Rhoi Gwybodaeth (rhaid i’r darparydd gadw tystiolaeth i ddangos ei fod wedi gofyn i’r dysgwr am yr wybodaeth) |
| Oriau Gwaith | LP61 | Manylion oriau gwaith y dysgwr bob wythnos | Rhif cyfan (wedi'i dalgrynnu i lawr i'r awr agosaf), "63" neu'n is |
| Cymhwyster Cymraeg wrth Ddechrau | LP67 | Lefel y cymhwyster Cymraeg uchaf a gyflawnwyd cyn y rhaglen ddysgu (cyfwerth â FfCChC) | 0 Cymraeg ail iaith: Lefel Cyn Mynediad/dim cymhwyster / 1 Cymhwyster Cymraeg ail iaith: Lefel Mynediad / 2 Cymhwyster Cymraeg ail iaith: Lefel 1 e.e. TGAU D-G / 3 Cymhwyster Cymraeg ail iaith: Lefel 2 e.e. TGAU A*-C / 4 Cymhwyster Cymraeg ail iaith: Lefelau 3 ac uwch e.e. Safon UG, Safon Uwch / 5 Cymraeg iaith gyntaf: Lefel Cyn Mynediad/dim cymhwyster / 6 Cymhwyster Cymraeg iaith gyntaf: Lefel mynediad / 7 Cymhwyster Cymraeg iaith gyntaf: Lefel 1 e.e. TGAU D-G / 8 Cymhwyster Cymraeg iaith gyntaf: Lefel 2 e.e. TGAU A*-C / 9 Cymhwyster Cymraeg iaith gyntaf: Lefelau 3 ac uwch e.e. Safon UG, Safon Uwch |
| Amcangyfrif o Oriau Canolfan | LP69 | Amcangyfrif o oriau yn y ganolfan ar ddechrau'r rhaglen ddysgu | Cofnodion dilys 0 - 3000 |

| Enw'r Maes | Cod | Disgrifiad o'r Maes | Nodiadau / Gwerth(oedd) Maes Dilys |
|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o Oriau Seiliedig ar Waith | LP70 | Amcangyfrif o oriau gwaith ar ddechrau'r rhaglen ddysgu | Cofnodion dilys 0 - 3000 / 9999 Amherthnasol |
| Oriau Canolfan Gwirioneddol | LP71 | Cofnodi'r union oriau canolfan ar ddiwedd y rhaglen ddysgu | Cofnodion dilys 0 - 3000 |
| Oriau Seiliedig ar Waith Gwirioneddol | LP72 | Cofnodi'r Oriau Seiliedig ar Waith Gwirioneddol ar ddiwedd y rhaglen ddysgu | Cofnodion dilys 0 - 3000 / 9999 Amherthnasol |
| Dyddiad Dechrau'r Rhaglen | LP73 | Cofnodi dyddiad dechrau'r rhaglen ddysgu | Unrhyw ddyddiad dilys, heb fod ymhellach i'r dyfodol na'r dyddiad cyflwyno |
| Cod Rhaglen Ddysgu | LP74 | Côd y Rhaglen Ddysgu a ddilynir | Y Cod Rhaglen PLA perthnasol sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster yn unol â thabl chwilio LA06/AW08 ar LLWR-Inform |
| Cyfeirnod Rhaglen Ddysgu a ddefnyddir gan y Darparydd | LP75 | Manylion adnabod ar gyfer rhaglenni dysgu | Unrhyw destun a neilltuwyd gan ddarparwyr i ddibenion cyfeirio mewnol |
| Dangosydd ADY | LP76 | Cymorth Dysgu Ychwanegol yn deillio o anghenion dysgu ychwanegol | 0 Nid oes gan y dysgwr anghenion dysgu ychwanegol (ADY)/dim angen / 5 Mae'r dysgwr yn cael cymorth dysgu ychwanegol, ond ni ddefnyddir cyllid CDY / 6 Mae’r dysgwr yn cael cymorth dysgu ychwanegol y defnyddir cyllid CDY ar ei gyfer |
| Dyddiad Gorffen Disgwyliedig | LP77 | Dyddiad gorffen disgwyliedig y rhaglen ddysgu | Unrhyw ddyddiad dilys. Dylai'r maes hwn ddangos y dyddiad y disgwylir i'r rhaglen ddysgu gael ei chwblhau - nid dyddiad derbyn canlyniadau arholiad/asesiad |
| Cyrchfan yn syth wedyn | LP79 | Cyrchfan y dysgwr cyn pen pedair wythnos ar ôl cwblhau'r rhaglen | 09 Yn chwilio am waith/yn ddi-waith / 13 Gwaith gwirfoddol / 18 Hunangyflogedig (gan gynnwys sefydlu ei f/busnes ei hun) / 21 Cyflogedig (amser llawn) / 22 Cyflogedig (rhan-amser) / 23 Cyflogaeth (Llai nag 16 awr yr wythnos) |

| Enw'r Maes | Cod | Disgrifiad o'r Maes | Nodiadau / Gwerth(oedd) Maes Dilys |
|---|---|---|---|
| Cyfrifoldeb Gofalu | LP80 | I nodi a oes gan y dysgwr gyfrifoldebau gofalu | 0 Prif Ofalwr plentyn/plant (Dan 18 oed) a Phrif Ofalwr oedolyn anabl (18 oed a throsodd) a Phrif Ofalwr person/pobl hŷn (65 oed a throsodd) / 1 Prif Ofalwr plentyn/plant (Dan 18 oed) / 2 Prif Ofalwr oedolyn anabl (18 oed a throsodd) / 3 Prif Ofalwr person/pobl hŷn (65 oed a throsodd) / 4 Dim cyfrifoldebau gofalu / 5 Gwrthod Rhoi Gwybodaeth (rhaid i'r darparydd gadw tystiolaeth i ddangos ei fod wedi gofyn i'r dysgwr am yr wybodaeth) 6 Prif Ofalwr plentyn/plant (Dan 18 oed) a Phrif Ofalwr oedolyn anabl (18 oed a throsodd) / 7 Prif Ofalwr plentyn/plant (Dan 18 oed) a Phrif Ofalwr person/pobl hŷn (65 oed a throsodd) / 8 Prif Ofalwr oedolyn anabl (18 oed a throsodd) a Phrif Ofalwr person/pobl hŷn (65 oed a throsodd) |
| GDPR | LP83 | Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU | Unrhyw werth dilys a geir yn Nhabl Chwilio LP83 ar LLWR-Inform |
| Oriau Anghydamserol Disgwyliedig | LP84 | Maes newydd i gasglu oriau dysgu - Oriau Anghydamserol Disgwyliedig | Unrhyw ystod rhifol 0 - 3000 |
| Oriau Cydamserol Disgwyliedig | LP85 | Maes newydd i gasglu oriau dysgu - Oriau Cydamserol Disgwyliedig | Unrhyw ystod rhifol 0 - 3000 |
| Oriau Anghydamserol Gwirioneddol | LP86 | Maes newydd i gasglu oriau dysgu - Oriau Anghydamserol Gwirioneddol | Unrhyw ystod rhifol 0 - 3000 |
| Oriau Cydamserol Gwirioneddol | LP87 | Maes newydd i gasglu oriau dysgu - Oriau Cydamserol Gwirioneddol | Unrhyw ystod rhifol 0 - 3000 |
| Dangosydd Cyflenwi Cyfrwng Cymraeg | LP88 | Bydd y maes hwn yn casglu canran y rhaglen a gyflenwir yn y Gymraeg | Unrhyw ystod rhifol 0 - 100 (a gofnodir fel canran) |
| Dangosydd y Cynllun Datblygu Unigol | LP90 | Yn cofnodi a oes gan ddysgwr gynllun datblygu unigol (CDU) | 0 Nid oes gan y dysgwr anhawster nac anabledd dysgu / 1 Mae gan y dysgwr anhawster neu anabledd dysgu ond nid oes ganddo ADY / 2 Mae gan y dysgwr ADY a CDU a gynhelir gan y SAB / 3 Mae gan y dysgwr ADY a CDU a gynhelir gan awdurdod lleol / 4 Mae gan |

| Enw'r Maes | Cod | Disgrifiad o'r Maes | Nodiadau / Gwerth(oedd) Maes Dilys |
|---|---|---|---|
| | | | y dysgwr ADY ond mae wedi gwrthod cael CDU |

**Set Ddata LLWR Gweithgaredd Dysgu (LA)**

| Enw'r Maes | Cod | Disgrifiad o'r Maes | Nodiadau / Gwerth(oedd) Maes Dilys |
|---|---|---|---|
| ULI | LA01 | Rhif adnabod unigryw ar gyfer pob dysgwr | Pennir hyn gan Lywodraeth Cymru |
| Rhif Adnabod y Dysgwr | LA02 | Rhif adnabod ar gyfer y dysgwr, wedi'i ddyrannu gan y darparydd dysgu | Unrhyw gyfuniad o werthoedd nodau alffaniwmerig derbyniol |
| Rhif Adnabod y Darparydd | LA03 | Cod adnabod ar gyfer y darparydd, fel y'i dyrannwyd gan Lywodraeth Cymru | Fel y'i diffinnir gan Lywodraeth Cymru |
| Rhif Adnabod y Rhaglen | LA04 | Rhif adnabod ar gyfer pob rhaglen ddysgu gyda'r darparydd ar gyfer y dysgwr hwn | Rhif dilyniannol y rhaglen ddysgu (01-99) a dyddiad dechrau'r rhaglen ddysgu, ar ffurf "XXddmmbbbb" |
| Rhif Adnabod Gweithgaredd | LA05 | Rhif adnabod ar gyfer y gweithgaredd dysgu ar gyfer y rhaglen ddysgu hon | “01” - “99” |
| Cyfeirnod Nod Dysgu | LA06 | Rhif adnabod ar gyfer gweithgaredd dysgu a dynnwyd o gatalog cymwysterau'r PLA | Gwerthoedd P0000001-P9999999 fel y'u cymeradwywyd gan Medr |
| Cyfeirnod Gweithgaredd Dysgu a ddefnyddir gan y Darparydd | LA07 | Rhif adnabod ar gyfer gweithgaredd dysgu | Unrhyw destun a neilltuwyd gan ddarparwyr i ddibenion cyfeirio mewnol / 0 - Amherthnasol |
| Teitl Gweithgaredd Dysgu | LA08 | Teitl y gweithgaredd dysgu | Unrhyw destun sy'n disgrifio'r gweithgaredd dysgu |
| Dyddiad Dechrau Gweithgaredd Dysgu | LA09 | Dyddiad dechrau'r gweithgaredd dysgu | Unrhyw ddyddiad dilys, heb fod ymhellach i'r dyfodol na'r dyddiad cyflwyno |
| Dyddiad Gorffen Disgwyliedig Gweithgaredd Dysgu | LA10 | Dyddiad gorffen disgwyliedig y gweithgaredd dysgu | Unrhyw ddyddiad dilys. Dylai'r maes hwn ddangos y dyddiad y disgwylir i'r gweithgaredd dysgu gael ei gwblhau - nid dyddiad derbyn canlyniadau arholiad/asesiad |
| Cyllid Darpariaeth Dysgwyr | LA11 | Math o gyllid | 1 Fframwaith Cynllunio a Chyllido Ôl-16 |

| Enw'r Maes | Cod | Disgrifiad o'r Maes | Nodiadau / Gwerth(oedd) Maes Dilys |
|---|---|---|---|
| Dull Cyflwyno | LA20 | Y prif ddull o gyflwyno'r dysgu | 01 Ystafell Ddosbarth / 02 Gweithdy / 03 Gweithle / 04 O bell (nid e-Ddysgu) / 05 E-Ddysgu / 06 Galw Heibio / canolfan ddysgu agored / 11 Dysgu Cyfunol |
| Pwnc Dysgu | LA21 | Cod system ddosbarthu LearnDirect ar gyfer y pwnc sy'n cael ei astudio | 00000000 Ddim yn ofynnol |
| Lefel Credyd Gweithgaredd Dysgu | LA22 | Lefel credyd gan ddefnyddio disgrifyddion lefel Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) | XX Ddim yn ofynnol |
| Math o Ddarpariaeth Gymraeg | LA26 | Math o ddarpariaeth dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog | E1 Dysgu ac asesu yn Saesneg yn unig / B3 Ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg / B2 Swm sylweddol o ddysgu cyfrwng Cymraeg / B1 Dysgu wedi'i gwblhau mewn cyd-destun dwyieithog / C1 Dysgu wedi'i gwblhau mewn cyd-destun cyfrwng Cymraeg |
| Darparydd Gweithgaredd Dysgu | LA28 | Cod adnabod ar gyfer y darparydd sy'n cyflwyno'r dysgu i'r dysgwr hwn drwy gytundeb partneriaeth / masnachfraint / is-gontractio | Unrhyw god darparydd dysgu dilys (mae'r rhestr lawn ar gael yn LLLW-Inform) neu 00000000 Dim trefniant |
| Cod Post y Safle | LA29 | Cod post y safle lle cyflwynir y mwyafrif o'r ddarpariaeth ar gyfer y gweithgaredd dysgu hwn | Unrhyw god post dilys |
| Dyddiad Gorffen Gweithgaredd Dysgu | LA30 | Dyddiad pan adawodd y dysgwr y gweithgaredd dysgu hwn | Unrhyw ddyddiad dilys, neu 9999-12-31 - Yn parhau |
| Statws Cwblhau | LA31 | Statws cwblhau ar ddiwedd y gweithgaredd dysgu | 1 Mae'r dysgwr yn parhau â'r gweithgaredd dysgu / 2 Mae'r dysgwr wedi cwblhau'r gweithgaredd dysgu / 3 Mae'r dysgwr wedi tynnu'n ôl o'r gweithgaredd dysgu / 4 Mae'r dysgwr wedi trosglwyddo i weithgaredd dysgu newydd (h.y. wedi tynnu'n ôl o'r gweithgaredd dysgu hwn ac o ganlyniad uniongyrchol i hynny wedi cychwyn ar weithgaredd dysgu arall ar yr un pryd) / 7 Mae'r dysgwr wedi methu dechrau'r gweithgaredd dysgu (PLA yn unig) |
| Dysgu asesadwy | LA40 | Yn dangos a oes modd asesu'r dysgu, sy'n ei gwneud hi'n bosibl i | 1 Gweithgaredd Dysgu wedi'i achredu gan gorff dyfarnu cydnabyddedig |

| Enw'r Maes | Cod | Disgrifiad o'r Maes | Nodiadau / Gwerth(oedd) Maes Dilys |
|---|---|---|---|
| | | adnabod gweithgareddau dysgu a ddylai fod â dyfarniadau cysylltiedig. | |
| Math o Weithgaredd Dysgu | LA47 | Dangosydd i nodi'r math o weithgaredd dysgu | 99 Amherthnasol |

**Set Ddata LLWR ar gyfer Dyfarniad (AW)**

| Enw'r Maes | Cod | Disgrifiad o'r Maes | Nodiadau / Gwerth(oedd) Maes Dilys |
|---|---|---|---|
| ULI | AW01 | Rhif adnabod unigryw ar gyfer pob dysgwr | Pennir hyn gan Lywodraeth Cymru |
| Rhif Adnabod y Dysgwr | AW02 | Rhif adnabod ar gyfer y dysgwr, wedi'i ddyrannu gan y darparydd dysgu | Unrhyw gyfuniad o werthoedd nodau alffaniwmerig derbyniol |
| Rhif Adnabod y Darparydd | AW03 | Cod adnabod ar gyfer y darparydd, fel y'i dyrannwyd gan Lywodraeth Cymru | Fel y'i diffinnir gan Lywodraeth Cymru |
| Rhif Adnabod y Rhaglen | AW04 | Rhif adnabod ar gyfer pob rhaglen ddysgu gyda darparydd ar gyfer y dysgwr hwn | Rhif dilyniannol y rhaglen ddysgu (01-99) a dyddiad dechrau'r rhaglen ddysgu, ar ffurf "XXddmmbbbb" |
| Rhif Adnabod Gweithgaredd | AW05 | Yn galluogi creu cysylltiad rhwng Dyfarniad a chofnod Gweithgaredd Dysgu (o fewn un Rhaglen Ddysgu) | 01-99 Llenwch y cofnod ActivityID (cod gweithgaredd dysgu) priodol ar gyfer y gweithgaredd a ddylai fod yn gysylltiedig â'r dyfarniad. |
| Rhif Adnabod y Dyfarniad | AW06 | Rhif adnabod y dyfarniad ar gyfer y rhaglen ddysgu benodol | Gwerthoedd 01-99 |
| Cyfeirnod Nod Dysgu'r Dyfarniad | AW08 | Rhif adnabod ar gyfer gweithgaredd dysgu | Gwerthoedd P0000001-P9999999 fel y'u cymeradwywyd gan Medr |
| Teitl y Dyfarniad | AW09 | Teitl a roddwyd gan y corff dyfarnu | Unrhyw destun sy'n disgrifio'r dyfarniad |
| Dyddiad y Canlyniad | AW11 | Dyddiad rhoi'r canlyniadau i'r dysgwr | Unrhyw ddyddiad dilys |
| Canlyniad | AW12 | Canlyniad y dyfarniad | Bydd gwerthoedd derbyniol yn cael eu croesgyfeirio yn erbyn yr ystodau o ddyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y tabl chwilio Canlyniadau ar LLWR-Inform. |
| Gwerth Credyd y Dyfarniad | AW13 | Gwerth y dyfarniad mewn credydau | 000.0 – 540.0, neu 999.9 Anhysbys/ddim yn ofynnol |
| Lefel Credyd y Dyfarniad | AW14 | Lefel credyd (FfCChC) | Nid yw'n ofynnol os defnyddir rhif cymhwyster PLA dilys yn AW08 |

| Enw'r Maes | Cod | Disgrifiad o'r Maes | Nodiadau / Gwerth(oedd) Maes Dilys |
|---|---|---|---|
| Math o Ddyfarniad | AW15 | Y math o ddyfarniad | 01 Llawn / 02 Uned sy'n cyfrannu at ddyfarniad |
| Dolen Gweithgaredd | AW22 | I nodi'r berthynas rhwng cofnod y dyfarniad a'r gweithgareddau dysgu o fewn yr un rhaglen ddysgu | 1 Dyfarniad yn gysylltiedig â gweithgaredd dysgu penodol a bydd ennill y dyfarniad hwn yn llawn yn dangos bod nod y gweithgaredd dysgu wedi'i gyflawni |
| Dangosydd Cyrhaeddiad | AW23 | Yn cofnodi a yw dyfarniad wedi'i ennill yn llwyddiannus ai peidio | 1 Ddim yn hysbys eto / 2 Dyfarniad wedi'i ennill / 3 Dyfarniad wedi'i ennill yn rhannol / 4 Dyfarniad heb ei ennill |

**Data eraill nad ydynt yn gysylltiedig â LLWR**

| Enw'r Maes | Cod | Disgrifiad o'r Maes | Nodiadau / Gwerth(oedd) Maes Dilys |
|---|---|---|---|
| Sector Cyflogaeth (ar y Dechrau) | ddim yn gysylltiedig â LLWR | Nodweddion cyflogaeth bresennol eraill 1 | Testun rhydd |
| Galwedigaeth (ar y Dechrau) | ddim yn gysylltiedig â LLWR | Nodweddion cyflogaeth bresennol eraill 2 | Testun rhydd |
| Cyflog (ar y Dechrau) | ddim yn gysylltiedig â LLWR | Nodweddion cyflogaeth bresennol eraill 3 | Testun rhydd |

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ


Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**